



Gorffennol Digidol Digital Past - 2020

CYFLWYNIAD I'R WEITHRED COST ACHUB ARCHAEOLEG EWROPEAIDD RHAG YR OES DYWYLL DDIGIDOL (SEADDA)

Holly Wright, International Projects Manager, [Archaeology Data Service](#)

Mae gwneud data archaeolegol yn agored a hygyrch i bawb yn flaenoriaeth ledled Ewrop, ond mae prinder storffeydd parhaol priodol. Gan fod data digidol mor fregus a chan nad oes modd ailwneud y rhan fwyaf o ymchwil archaeolegol, mae archaeoleg ar fin colli cenhedlaeth o waith ymchwil i'r Oes Dywyll Ddigidol. Yr ateb i'r argyfwng hwn yw dod ag archaeolegwyr ac arbenigwyr rheoli data at ei gilydd i rannu arbenigedd a chreu adnoddau sy'n eu galluogi i fynd i'r afael â phroblemau yn y ffordd fwyaf priodol yn eu gwledydd eu hunain. Er bod safonau rhyngwladol pwysig ar gael, ac y dylid eu defnyddio, nid oes un ffordd syml o adeiladu ystorfa. I fod yn llwyddiannus, rhaid i archaeolegwyr fod wrth galon y broses o benderfynu sut y caiff eu data eu harchifo er mwyn sicrhau y gellir eu haildefnyddio. Bydd y papur hwn yn cyflwyno SEADDA (Achub Archaeoleg Ewropeaidd rhag yr Oes Dywyll Ddigidol), Gweithred COST sydd newydd dderbyn cyllid. Mae SEADDA yn dwyn ynghyd rwydwaith rhyngddisgyblaethol o archaeolegwyr a chyfrifiadurwyr – arbenigwyr mewn rheoli data archaeolegol a lledaenu ac aildefnyddio data agored. Bydd SEADDA yn galluogi archaeolegwyr o wledydd sy'n meddu ar arbenigedd archifo i weithio gydag archaeolegwyr nad oes fawr ddim dewisiadau ganddynt, fel y gallant rannu gwybodaeth, creu deialog o fewn eu gwledydd eu hunain, a symud ymlaen i fynd i'r afael â'r argyfwng.



Bywgraffiad

Mae Holly Wright yn rheoli ymchwil cydweithredol ar ran y Gwasanaeth Data Archaeoleg (ADS), gan gynnwys y prosiectau SEADDA, ArchAIDE, NEARCH, E-RIHS, ARIADNE, ARIADNEplus LoCloud, CARARE, a SENESCHAL y mae'r ADS yn cymryd rhan ynddynt. Mae ganddi M.Sc. mewn Systemau Gwybodaeth Archaeolegol a Ph.D. mewn Archaeoleg, sy'n rhoi sylw arbennig i luniadu archaeolegol yn y maes ac i'r We Semantig. Ei meysydd ymchwil arbenigol yw dogfennaeth weledol a chyfathrebu, rheoli data archaeolegol, a defnyddio safonau Gwe a'r We Semantig ym maes archaeoleg.



[Gorffennol Digidol 2020](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan
12 & 13 o Chwefror 2020, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Aberystwyth

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg | This document is also available in English.